

# RHESTR WIRIO GWEITHGAREDDAU DIWRNOD GÊM Y TU ALLAN I'R TYMOR

Gellir cymryd rhai camau allweddol i sicrhau bod eich caeau a'ch cyfleusterau yn barod i fynd pan fydd y tymor newydd yn cychwyn. Meddyliwch sut gall y math yma o waith gael ei rannu gan nifer o bobl neu'n well fyth, sut gallwch chi ei wneud yn ddigwyddiad, lle gall pawb ymuno a rhoi help llaw!



## Goliau

- Ydi'r goliau mewn cyflwr da, heb unrhyw ddiffygion na difrod i'r strwythurau?
- 
- Oes arnyn nhw angen côt o baent i wneud iddyn nhw edrych yn ffres ar gyfer y tymor newydd sydd i ddod?
- 
- Ydi'r rhwydi'n rhydd o dyllau? Oes arnoch chi angen pegiau neu glipiau plastig newydd?
- 
- Ydi'r bagiau a ddefnyddir i gludo'r goliau plastig yn parhau mewn cyflwr da?

## Fflagiau Cornel

- Ydi polion y fflagiau cornel yn rhydd o ddiffygion a difrod?
- 
- Ydyn nhw'n sefyll yn unionsyth yn y tyllau cornel yn ddiogel?
- 
- Ydi'r fflagiau cornel yn agos at y polyn, oes angen mwy o glymau arnyn nhw i'w galluogi i aros yn eu lle?

## Dygowts

- Ydi'r dygowts yn rhydd o sbwriel?
- 
- Ydyn nhw'n parhau mewn cyflwr da heb unrhyw ddifrod strwythurol?
- 
- Ydi'r fynedfa i'r dygowt yn glir ac yn rhydd o falurion?

## Byrddau'r Cae

- Ydi'r byrddau ar ochr y cae'n rhydd o ddiffygion?
- 
- Ydyn nhw'n arddangos manylion y sefydliad yn glir?
- 
- Ydi'r holl sefydliadau, busnesau a noddwyr yn berthnasol o hyd?

## Standiau

- Ydi'r standiau'n rhydd o sbwriel?
- 
- Ydyn nhw'n parhau mewn cyflwr, hy y seddi'n ddiogel, dim difrod strwythurol ac ati?
- 
- Ydi'r fynedfa i'r standiau'n glir ac yn rhydd o falurion?



### Pwyntiau Mynediad

- Ydyn nhw'n dal yn hawdd i'w hadnabod?
- A yw'n hawdd adnabod y pwyntiau mynediad mewn argyfwng a'r llwybrau o hyd?
- Ydi'r pwyntiau mynediad o amgylch y cae yn glir ac yn rhydd o falurion?

### Gofynion Chwarae

- Gwiriwch i sicrhau nad oes unrhyw newidiadau wedi bod o ran y gofynion ar gyfer cyfleusterau, h.y. dimensiynau'r cae, dŵr ffo ac ati.
- Gwiriwch pa grwpiau oedran fydd gan y clwb y tymor nesaf a pha fformat fydd y gêm a dimensiynau'r cae y bydd angen iddyn nhw chwarae arno.

### Dod o Hyd i Ni

- A yw'n hawdd adnabod lleoliad y cae o hyd?
- Oes angen arwyddion ychwanegol i gefnogi ymwelwyr sy'n dod i'r clwb / cae?

Nid yw hon yn rhestr hollgynhwysfawr, felly efallai y bydd gennych offer ac ardaloedd diwrnod gêm eraill y mae angen eu hadolygu a'u gwirio cyn i'r tymor ddechrau.

### Pethau pwysig i'w hystyried gyda'r uchod i gyd:

- A adroddwyd am y difrod neu'r gwaith cynnal a chadw a nodwyd yn gywir ac yn briodol?
- A gomisiynwyd cwmni (au) addas i wneud unrhyw waith atgyweirio / cynnal a chadw?
- Oes cyllideb ar gyfer y gwaith?
- Ydi'r pwyllgor, y bwrdd neu bobl eraill priodol wedi cytuno ar y gwaith a'i gymeradwyo?

